Special Bulletin/Bwletin arbennig

CânSing

# CânSing 2014

## ...yn fwy ac yn well nag arfer – bigger and better than ever!



**Cafodd miloedd o blant ledled Cymru gyfle i ddathlu eu hymrwymiad â rhaglen CânSing ar Ddydd Iau'r 19eg o Fehefin 2014.**

Bellach, mae CânSing, a reolir gan GaST Cymru, yn ei bumed flwyddyn ac yn targedu disgyblion Blynyddoedd 5, 6 a 7 drwy gynnig hyfforddiant, cefnogaeth bwrpasol ac adnoddau sydd ynghlwm â'r cwricwlwm i annog a chefnogi dysgu canu ar draws Cymru.

Mae'r gefnogaeth i'r rhaglen hon yn glir - dyma ein pedwerydd Diwrnod Cenedlaethol CânSing a bu digwyddiadau Diwrnod CânSing yn cymryd lle ar draws Cymru gyfan a bu'r chwe animateur (hyfforddwyr lleisiol) CânSing yn brysur iawn yn mynychu digwyddiadau yn Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Abertawe, RCT a Sir Benfro.

Dewisodd amryw o athrawon weithio gydag ysgolion cyfagos a daethant â disgyblion ynghyd; yn uno lleisiau drwy ddefnyddio adnoddau CânSing sydd ar gael ar y wefan bwrpasol (www.cansing.org.uk).

Rwyf wrth fy modd y cymrodd cynifer o ysgolion y cyfle hwn i ddathlu eu cyflawniadau gyda CânSing. Mae CânSing yn hynod lwyddiannus ac rydym yn hyderus fod y profiad yn cael effaith hirdymor ar athrawon a disgyblion ill dau, yn eu hannog i ddefnyddio'u lleisiau heddiw ac ymhell i'r dyfodol.

Mae Diwrnod Cenedlaethol CânSing yn gyfle ardderchog i ddathlu popeth a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ond hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a'r hyn a olygai i blant, pobl ifanc, teuluoedd, ysgolion a grwpiau cymunedol.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau'r rhifyn arbennig hwn o fwletin CânSing - am ragor o wybodaeth am y fenter, neu i ganfod sut y medrwch ddod yn rhan, cysylltwch â mi ar **suzanne.barnes@castcymru.org.uk**

Diolch i holl deulu CânSing am wneud ein dathliad cenedlaethol yn gymaint o lwyddiant ysgubol!

Suzanne

*Suzanne Barnes, Rheolwr Prosiect*

**Thousands of children across Wales had the opportunity to celebrate their involvement in the CânSing programme on Thursday 19 June 2014.**

CânSing, managed by CaST Cymru, is now in its fifth year and targets pupils in Years 5, 6 and 7 by offering training, bespoke support and curriculum-linked resources to encourage and support the teaching of singing across Wales.

The support for this programme is clear, this is our fourth National CânSing Day and there were CânSing Day events happening all over Wales and the six CânSing animateurs (vocal coaches) were very busy attending events in Wrexham, Denbighshire, Conwy, Swansea, RCT and Pembrokeshire.

Many teachers chose to work with other nearby schools and brought pupils together to unite voices by using the CânSing resources which are available on the dedicated website (www.cansing.org.uk).

I'm delighted that so many schools took up this opportunity to celebrate their achievements with CânSing. CânSing is hugely successful and we are confident that the experience is having a lasting impression on both teachers and children alike, encouraging them to use their voices today and well into the future.

National CânSing Day is a fantastic opportunity to celebrate all that has been achieved during the past year but also to raise awareness of the programme and what it means to children, young people, families, schools and community groups.

I hope you enjoy this special edition of the CânSing bulletin - for more information about the initiative, or to find out about how you can get involved, please contact me on **suzanne.barnes@castcymru.org.uk**

Thanks to the whole CânSing family for making our national celebration such a huge success!

Suzanne

*Suzanne Barnes, Project Manager*

# Conwy CânSing!

**Following the success of previous years, over 200 pupils from six Conwy primary schools came together for the fourth Conwy CânSing Celebration last Thursday, 19th June.**



Together with schools throughout Wales, we raised our voices in Ysgol Pendorlan, Colwyn Bay, as part of national CânSing Day and International Music Day.

Congratulations to pupils from Cynfran, Cystennin, Llanddulas, Maes Owen, Pendorlan and Tan y Marian – who each sang a specially rehearsed song to the others – and to CânSing animateur Jenny Pearson who united all the voices in a Welsh and an English song.

CânSing is a national initiative to improve the quality of singing in this, our land of song. A comprehensive bi-lingual resource website with warm up activities and an ever-growing song bank alongside free training days have been offered to all Conwy schools.

Conwy CânSing proudly showcases the achievements of teachers and pupils. Keep up the good work and see you next year!

*Julie Meehan,*
*Expressive Arts Adviser,*
*Conwy County Borough Council*

# CânSing Conwy!

**Wedi llwyddiant blynyddoedd blaenorol, daeth dros 200 o ddisgyblion o chwe ysgol gynradd yng Nghonwy ynghyd ar gyfer pedwerydd dathliad CânSing Conwy ar 19 Mehefin.**

Gydag ysgolion trwy Gymru, codwyd ein lleisiau yn Ysgol Pendorlan, Bae Colwyn, fel rhan o Ddiwrnod CânSing a Diwrnod Cerddoriaeth Rhyngwladol.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Cynfran, Cystennin, Llanddulas, Maes Owen, Pendorlan a Than y Marian – a ganodd gân wedi'i hymarfer i eraill – ac i animateur CânSing, Jenny Pearson a ddaeth â'r holl leisiau ynghyd mewn cân Gymraeg a Saesneg.

Mae CânSing yn fenter genedlaethol i wella ansawdd canu yng ngwlad y gân. Cynigiwyd adnodd gwefan dwyieithog cynhwysfawr gyda gweithgareddau cynhesu a chronfa gynyddol o ganeuon ynghyd â dyddiau hyfforddiant am ddim i bob ysgol yng Nghonwy.

*Julie Meehan, Ymgynghorydd Celfyddydau Mynegiannol/Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*

## Ysgol Y Pant - RCT

Inviting year 6 pupils from a number of different junior schools to join year 7 pupils for a singing session might seem like a daunting idea; however, this is the second year we've done this, and by choice too - there was no forced or hidden agenda - and I thoroughly enjoyed it. Bringing together all those voices for the CânSing celebration was a great experience for pupils and staff. It was fun, the web site made it really easy to create a fast paced and interesting session, as well being easy for the music and non-music specialists to prepare pupils to a high standard. The occasion also gave the teachers involved an excuse to interact with teachers from other schools and key stages and to remember there is a big picture that we all play a part in. It was a really enjoyable experience and I will certainly be looking to do it again in 2015. Da iawn CânSing.

*Marvin Thomas,*
*Head of Music,*
*Ysgol Y Pant*

## Ysgol Y Pant - RCT

Gall gwahodd disgyblion Blwyddyn 6 o wahanol ysgolion cynradd i ymuno â disgyblion Blwyddyn 7 am sesiwn ganu ymddangos fel syniad heriol - fodd bynnag, dyma'r ail flwyddyn i ni wneud hyn, ac o ddewis hefyd - nid oedd unrhyw agenda orfodol neu gudd - ac fe fwynhaiais ef yn llwyr. Roedd tynnu ynghyd yr holl leisiau hynny ar gyfer dathliad CânSing yn brofiad arbennig i ddisgyblion a staff. Roedd e'n hwyl, gwnaeth y safle we e'n hawdd iawn i greu sesiwn gyflym a diddorol, yn ogystal â bod yn hawdd i'r arbenigwyr cerdd a di-gerdd baratoi disgyblion i safon uchel. Hefyd, rhoddodd y digwyddiad gyfle i'r athrawon a oedd ynghlwm i ryngweithio ag athrawon o ysgolion a chyfnodau allweddol eraill ac i gofio bod darlun ehangach lle'r ydym oll yn cyfranogi ohono. Roedd yn brofiad hynod o ddymunol ac yn bendant rwy'n edrych ymlaen at wneud yr un peth eto yn 2015. Da iawn CânSing.

*Marvin Thomas, Pennaeth Cerddoriaeth,Ysgol Y Pant*

CânSing 2014

# Wrexham

**The largest of our events this year was in Wrexham, where the celebrations included an event attended by more than 600 pupils at the William Aston Hall. This marked the culmination of a partnership between the national schools initiative CânSing, Welsh National Opera and Wrexham Music Service who collaborate to ensure the children, young people and families of Wrexham have an opportunity to 'find their voice'.**

***I really liked watching the opera singer perform!***



Thank you so much for allowing us to take part in the Wrexham National CânSing Day, it really was a truly spectacular day. All the children have commented on how much they enjoyed it and I have had quotes from them such as: 'That was the best day EVER', 'We had so much fun', and 'The pianist playing *Let It Go* was my favourite part'.

Each and every one of us gained something from that day, 'Thank You'.

We are looking at putting on a trip in the autumn term to take the children to see the opera *Carmen* as they enjoyed Dyfed so much. Many thanks and hope to see you again soon.

*Mathew Povey, Black Lane CP, Wrexham*

Year 7 pupils from St Joseph's joined many other Wrexham schools at the William Aston Hall last Thursday 19th June for National CânSing Day - they sang their hearts out in a marvellous 'Songfest' led by the wonderful Ruth Evans with repertoire from CânSing and Welsh National Opera. Dyfed Wyn Evans sang the solo in the *Toreador's Song* and Annette Bryn Parri wowed the children with a special arrangement of *Let it Go* from *Frozen* on the piano.

*Joanne Goodison, Curriculum Leader of Learning (Music)*





Just to say a big thanks to the CânSing team for today at the William Aston Hall. Great fun - and great to see the pupils I took enjoying themselves, dancing around and having a good old sing! Many thanks.

*Paul Fisher, St.Christopher's*

# Wrecsam

**Roedd ein digwyddiad mwyaf eleni yn Wrecsam, lle'r oedd y dathliadau'n cynnwys digwyddiad a fynychwyd gan fwy na 600 disgybl yn Neuadd William Aston. Roedd hyn yn nodi ac a oedd yn nodi penllanw'r bartneriaeth rhwng y fenter genedlaethol i ysgolion CânSing, Opera Cenedlaethol Cymru a Gwasanaeth Cerdd Wrecsam a gydweithiodd i sicrhau fod gan blant, pobl ifanc a theuluoedd Wrecsam gyfle i 'ganfod ei llais'.**

***Y pianydd yn chwarae 'Let It Go' oedd fy hoff ran***

Ymunodd disgyblion Blwyddyn 7 o Ysgol Sant Joseff â nifer o ysgolion eraill ardal Wrecsam yn Neuadd William Aston ddydd Iau diwethaf, y 19eg o Fehefin, ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol CânSing - canasant hyd eithaf eu gallu mewn 'Gŵyl Ganu' a arweiniwyd gan y rhyfeddol Ruth Evans gyda repertoire gan CânSing ag Opera Cenedlaethol Cymru. Canodd Dyfed Wyn Evans yr unawd yng *Nghân y Toreador* a swynodd Annette Bryn Parri'r plant gyda threfniant arbennig o *Let it Go* allan o *Frozen* ar y piano.

*Joanne Goodison, Arweinydd Dysgu'r Cwricwlwm (Cerddoriaeth)*

Diolch o galon am ganiatau i ni gymryd rhan yn Niwrnod Cenedlaethol CânSing Wrecsam - mi oedd wir yn ddiwrnod hynod fawreddog. Soniodd bob un o'r plant cystal y gwnaethon nhw fwynhau a chefais sylwadau ganddynt megis; 'Dyna oedd y diwrnod gorau ERIOED', 'Gaethon ni gymaint o hwyl', 'Roeddwn i wir yn hoffi gwylio'r canwr opera'n perfformio'.

Enillodd bob un ohonom rywbeth o'r diwrnod hwnnw 'Diolch'.

Rydym yn chwilio am gyfle i gymryd trip yn Nhymor yr Hydref i fynd â'r plant i weld yr Opera Carmen gan eu bod wedi mwynhau Dyfed cymaint. Llawer o ddiolch a gobeithiwn eich gweld eto'n fuan,

*Mathew Povey, YG Black Lane Wrecsam*





Dim ond dweud diolch yn fawr i dîm 'CânSing' am heddiw yn Neuadd William Aston. Llawer o hwyl - a grêt i weld disgyblion a gymerais yn mwynhau eu hunain, yn dawnsio o amgylch ac yn canu'n braf! Llawer o ddiolch,

*Paul Fisher, St Christopher's*

# Denbighshire

On National CânSing day, Ysgol Glan Clwyd kindly hosted a session for year 5 and 6 learners from feeder primaries, followed by a session with all year 7s together. After some crazy but effective warm ups we sang a number of songs from the CânSing website including 'Daw Hyfryd Fis' 'Down, down down' 'Scoo be doo' and we also tried out the 'Toreador song' which went down a storm, we even had a re-enactment of the bull fighting scene! Thank you to all involved for your enthusiasm and great singing and to all staff for your support. Roll on CânSing day 2015!

*Jenny Pearson, CânSing animateur*

# Sir Ddinbych

Ar ddiwrnod Cenedlaethol CânSing, fe wnaeth Ysgol Glan Clwyd gynnal sesiwn ar gyfer dysgwyr blwyddyn 5 a 6 o ysgolion cynradd y dalgylch, wedi'i ddilyn gan sesiwn gyda pob disgybl ym Mlwyddyn 7. Ar ôl rhywfaint o ymarferion cynnes hwyliog ond effeithiol fe wnaethom ganu nifer o ganeuon o wefan CânSing, gan gynnwys 'Daw Hyfryd Fis' ,'Lawr, Lawr Lawr' 'Sgw bi dw' ac fe wnaethom ganu'r 'Cân y Toreador' a aeth i lawr yn arbennig o dda, fe wnaethom hyd yn oed ail-greu yr olygfa ymladd tarw! Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran ac am eich brwdfrydedd a chanu gwych ac i'r holl staff am eu cefnogaeth. Ymlaen i ddiwrnod CânSing 2015!

*Jenny Pearson, animateur CânSing*



# Swansea

This year, I had the pleasure of celebrating the use our CânSing resources in the Swansea valley and kicked off the celebrations in style in Ysgol Gynradd Felindre and Casllwchwr Primary. Thank you to both schools and their pupils for the warm welcome, enthusiasm and support! We had a lot of fun and excellent singing!

*Elin Llwyd, CânSing animateur*



# Abertawe

Cefais y pleser o ddathlu ein defnydd o adnoddau CânSing yng Nghwm Tawe eleni. Bues i'n lwcus iawn i ddechrau'r dathliadau mewn steil yn Ysgol Gynradd Felindre a Casllwchwr. Diolch yn fawr i'r ysgolion a'u hathrawon am y croeso cynnes, eu brwdfrdyedd a'u cefnogaeth! Gethon ni lot fawr o sbort a chanu arbennig!

*Elin Llwyd, animateur CânSing*

# Pembrokeshire

This year, Aled travelled to West Wales to celebrate CânSing day with over 150 pupils from Milford Haven Junior school. Along with Suzanne Griffiths-Rees from the Arts Council of Wales, the pupils were led over four workshops that included everything from funny warm ups to some 'serious' beat-boxing. All elements were put together at the end of each session to perform songs from the website, leaving just enough time to get some #singingselfie photos in for the CânSing competition. A great time was had by all. A particular highlight was being interrupted in one of the sessions by a Jack Russell who was keen to join in the fun!






# Sir Benfro

Eleni, teithiodd Aled i Gorllewin Cymru i ddathlu diwrnod CânSing gyda dros 150 o ddisgyblion o ysgol iau Aberdaugleddau. Ynghyd â Suzanne Griffiths-Rees o Gyngor Celfyddydau Cymru, roedd y disgyblion yn cael eu harwain mewn gweithdai a wnaeth cynnwys popeth o ymarferion cynhesu doniol i bît-bocsio 'ddifrifol'. Ar ddiwedd pob sessiwn wnaethon nhw rhoi'r holl elfennau gyda'i gilydd i berfformio caneuon o'r wefan, gan adael ychydig o amser i gael #hunluncanu ar gyfer cystadleuaeth CânSing. Cafodd pawb amser gwych. Uchafbwynt penodol, oedd cael ein tarfu yn un o'r sesiynau gan Jack Russell oedd yn awyddus i ymuno yn yr hwyl!

# CânSing 2014 in the media

We do our best to get the media to notice our efforts on and around CânSing Day – this year we were invited to have a chat with Shan Cothi on the BBC Radio Cymru programme *Bore Cothi*. Shan is a big supporter of CânSing and animateur Aled Powys Williams did a great job in telling the nation all about our national celebration.

We were also please to welcome S4C's *Ffeil* tv programme to Ysgol Cymer in RCT where they filmed the pupils taking part in their celebrations.

# CânSing 2014 yn y cyfryngau

Rydym yn gwneud ein gorau glas i ddenu sylw'r cyfryngau i'n hymdrechion o gwmpas Diwrnod CânSing ac ar y dydd ei hun – eleni, fe'n gwahoddwyd i gael sgwrs â Shan Cothi ar raglen BBC Radio Cymru *Bore Cothi*. Mae Shan yn gefnogwr mawr i CânSing ac fe gyflawnodd animateur Aled Powys Williams waith rhagorol wrth hysbysu'r genedl am ein dathliad cenedlaethol.

Hefyd, roeddem yn falch iawn o groesawu rhaglen deledu S4C *Ffeil* i Ysgol Gyfun y Cymer yn RCT, lle buont yn ffilmio'r disgyblion yn cymryd rhan yn eu dathliadau.

## @cansingcymru

For the first time we used Twitter to promote CânSing day and it had a big impact. On June 19th we were trending at number 1 in Wales – which just shows how popular our celebrations were. We also launched a competition for the best #singingselfie (#hunluncanu) and had loads of entries. Our favourites included: @Aled Hall (and his dog!), @sheaferrontaekwondo, @ Tirdeunaw and @telerijjj but the winner has to be @ysgoltanymarian (right) for sheer effort! We'll be in touch about your prize! Thank you to everyone who submitted a #singingselfie or used the #cs2014 hashtag – it really helped raise the profile of CânSing Day – well done!










## @cansingcymru

Am y tro cyntaf, defnyddiwyd Twitter/Trydar gennym i hyrwyddo diwrnod CânSing ac fe gafodd hwn effaith fawr. Ar Fehefin y 19eg, roeddem ar frig y rhestrau trendio yng Nghymru – sy'n dangos pa mor boblogaidd oedd ein dathliadau. Yn ogystal, lansiwyd cystadleuaeth gennym i ganfod yr #hunluncanu gorau (#singingselfie) a chafwyd llwyth o gynigion. Ymysg ein ffefrynnau oedd: @Aled Hall (a'i gi!), @sheaferrontaekwondo, @Tirdeunaw ac @telerijjj, ond mae'n rhaid taw'r enillydd am ymdrech hynod yw @ysgoltanymarian! Byddwn mewn cysylltiad â chi ynghylch eich gwobr! Diolch i bawb a ddanfonodd #hunluncanu neu a ddefnyddiodd yr hashnod #cs2014 – fe wnaeth lawer i godi proffil Diwrnod CânSing – Da iawn!

# @cansingcymru




CânSing
2014

# Other news/ Newyddion arall

## CânSing funding

**As many of you are aware, Welsh Government funding for CânSing comes to an end on 31st July 2014. CaST Cymru continues to be committed to securing a long-term future for CânSing.**

The National Children's Choir of Great Britain is working with the Royal Welsh College of Music and Drama in a new partnership. The choir, which was founded in 1998, runs two residential courses every year in the Easter and Summer holidays; these courses give talented children the opportunity to sing together and make music of an outstandingly high standard. The repertoire is very varied, ranging from madrigals and Purcell to Chilcott and Bart. NCCGB tours regularly, most recently in Italy in 2012, and will sing in Northern Spain in 2016.

In addition to their courses, NCCGB is starting a workshop programme throughout the UK, for all children who love to sing. The first workshop will be at RWCMD on Sunday 12th October 2014, for children from school years 4 to 7. NCCGB conductors will lead the event and there will also be an opportunity to audition for entry into the choir in 2015. The cost of the workshop will be £5 per child, and the audition fee is £5 extra.

The NCCGB admin team is happy to answer any questions, about the workshop or the choir, and can be contacted by ringing 07894 021279 or emailing info@nccgb.com. Information about the choir can also be found on the website, www.nccgb.com.

## Cyllido CânSing

**Fel y mae llawer ohonoch yn ymwybodol, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer CânSing yn dod i ben ar 31o Orffennaf, 2014. Fe fydd Cast Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau dyfodol tymor hir ar gyfer CânSing.**

Mae Côr Cenedlaethol Plant Prydain Fawr yn gweithio gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru mewn partneriaeth newydd. Mae'r côr, a ffurfiwyd ym 1998, yn cynnal dau gwrs preswyl bob blwyddyn dros wyliau'r Pasg a'r Haf; rhydd y cyrsiau hyn gyfle i blant talentog ganu gyda'i gilydd a chreu cerddoriaeth sydd o safon eithriadol. Mae'r repertoire yn hynod amrywiol, yn cwmpasu madrigalau a cherddoriaeth Purcell i Chilcott a Bart. Mae CCPPF yn teithio'n rheolaidd, y mwyaf diweddar ohonynt i'r Eidal yn 2012, a byddant yn canu yng Ngogledd Sbaen yn 2016.

Yn ychwanegol i'w cyrsiau, mae CCPPF yn cychwyn rhaglen o weithdai drwy'r DU i bob plentyn sy'n hoffi canu. Cynhelir y gweithdy cyntaf yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar Ddydd Sul, y 12fed o Hydref 2014, i blant blynyddoedd ysgol 4–7. Bydd arweinwyr CCPPF yn llywio'r digwyddiad ac yn ogystal, bydd cyfle i dderbyn clyweliad ar gyfer mynediad i'r côr yn 2015. Pris y gweithdy fydd £5 y plentyn, a ffi'r clyweliad yn £5 ychwanegol.

Mae tîm gweinyddol CCPPF yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau ynghylch y gweithdy neu'r côr, a gellir cysylltu â hwy drwy ffonio 07894 021279 neu e-bostio info@nccgb.com. Hefyd, gellir canfod gwybodaeth am y côr ar y wefan, www.nccgb.com.

CaST Cymru
Unit 1, Forest Studios
Ceinws, Machynlleth
Powys SY20 9HA

Ffôn: 01654 761568
www.castcymru.org.uk
www.cansing.org.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau a 'Sgolion fel Tîm
CaST CYMRU
Communities and Schools Together

07/14